# Ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri Cymru

### 16 Mai 2008

### Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Ym mis Rhagfyr cyflwynais adroddiad ar y gwaith sy'n cael ei wneud gydag Ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri yng Nghymru i hybu cyfle cyfartal ac i wella cyfleoedd ym mywydau ein plant a phobl ifanc anabl.

Ym mis Ebrill, gwelwyd pwerau'n cael eu trosglwyddo i'r Cynulliad am y tro cyntaf trwy Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol, ac mae o berthnasedd penodol bod a wnelo'r pwerau hyn ag Anghenion Addysgol Arbennig. Bydd y pwerau newydd yn caniatáu i Lywodraeth Cynulliad Cymru lunio cyfreithiau yng Nghymru, a elwir yn Fesurau'r Cynulliad, ar y ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Bydd y cyfreithiau newydd yn caniatáu i'r Cynulliad ymdrin â materion sy'n ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol ac i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau'r grŵp hwn o blant a phobl ifanc, sy'n aml yn ddiamddiffyn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i roi cyfle i bob plentyn a pherson ifanc i gyflawni eu potensial fel y gallant chwarae ran lawn ym mywyd eu cymuned. Mae ceisio pwerau'n gynnar i'r perwyl hwn yn rhoi cyfle unigryw i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn dull sy'n amserol a phriodol ac yn caniatáu i blant anabl a'u teuluoedd gael cyfle i lunio'r gwasanaethu hynny sy'n effeithio ar eu bywydau.

Ni all hyn i gyd ddigwydd dros nos ac rwyf wedi ymrwymo i sicrhau y bydd ymgynghori llawn ar unrhyw newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth ac y bydd treialu ffyrdd newydd o weithio er mwyn sicrhau ein bod wedi diogelu hawliau plant anabl a'u teuluoedd a hefyd diogelu'r ddarpariaeth a'r cyflenwad o wasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Fel yr addewais yn fy natganiad ym mis Rhagfyr, rwyf wedi sefydlu grŵp gorchwyl o aelodau'r ymgyrch ac uwch swyddogion sydd hyd yn hyn wedi cyfarfod ddwy waith ac a fydd hefyd yn cyfarfod eto'n ddiweddarach yr wythnos hon. Hefyd, rwyf wedi cyfarfod ag aelodau'r ymgyrch a byddaf yn parhau i wneud hynny yn rheolaidd er mwyn sicrhau y byddwn yn gyrru'r agenda bwysig iawn hon yn ei blaen yn ystod oes y Llywodraeth hon.

Fel y Gweinidog dros Blant, a Chadeirydd y Pwyllgor Cabinet Plant ar Blant a Phobl Ifanc, rwy'n cydgysylltu'r fenter bwysig hon sy'n torri ar draws portffolios Gweinidogol ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn dilyn fy natganiad diwethaf rwyf wedi cyfarfod â'r Gweinidogion perthnasol i sicrhau ein bod yn parhau i weithio gyda'n gilydd i ddatblygu polisïau sy'n gwella gwasanaethau yn y maes hwn. I'r perwyl hwnnw rydym wedi gallu sicrhau cyllid ychwanegol o £1.54 m ar gyfer 2008/09 i wneud yn siŵr fod cyllid parhaol ar gyfer gwyliau byr, un o argymhellion allweddol Ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri Cymru. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn gwerthuso'r cyllid a ddarparwyd y llynedd ac rwyf wedi gofyn i'r grŵp gorchwyl roi gwybod i mi sut y gellir dyrannu cyllid a all adeiladu ar enghreifftiau presennol o arferion da.

Hefyd ym mis Rhagfyr, cyhoeddais fod cyllid o £225,000 ar gael i ddarparu Mannau Newid i ehangu mynediad at leoliadau diwylliannol. Bu'r Adran Dreftadaeth yn gweithio gyda Mencap Cymru i gwblhau manylion y prosiect hwn, ac rwy'n disgwyl i gyfleusterau cyfnod 1 gael eu cwblhau yn ystod yr haf, ac i gyfleusterau cyfnod 2 gael eu cwblhau erbyn 2009. Bydd cyfnod 1 yn darparu dau gyfleuster newid symudol. Bydd cyfnod 2 yn caniatáu i nifer o leoliadau diwylliannol osod Mannau Newid. Yn ogystal â hyn, mae fy nghyd-Weinidog Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, y mis hwn yn cyhoeddi dogfen ymgynghori ar ddiwygio polisi cynllunio Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio a fydd yn annog cynnwys cyfleusterau tai bach 'Mannau Newid' hygyrch mewn cynlluniau ar gyfer

adeiladau masnachol newydd a chyhoeddus.

Rydym yn cydweithio'n agos ag ymgyrchwyr a mudiadau sector gwirfoddol eraill ar y gwaith o ddarparu deunyddiau cefnogi cynnar i'w defnyddio ar sail amlasiantaeth ar draws Cymru. Bydd Cymorth Cynnar yn gwella ansawdd, cysondeb a chydgysylltiad gwasanaethau i blant anabl o dan bump oed a'u teuluoedd. Ym mis Rhagfyr cyhoeddais ddyraniad o £1m ar gyfer datblygiad cychwynnol deunyddiau ac mae hyn bellach eisoes yn digwydd. Dros gyfnod o 3 blynedd tan 2011 i 2012, rwyf wedi penderfynu y bydd £1.2m pellach yn cael ei ddyrannu i sicrhau bod y rhaglen yn rhan ganolog o hyfforddi gweithwyr proffesiynol a darparu deunyddiau i deuluoedd ar draws Cymru.

Roedd fy nghyhoeddiad ym mis Rhagfyr hefyd yn cynnwys parhau i ddarparu cyllid i gefnogi mynediad plant anabl i chwarae. Bydd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen rôl bwysig i ddiffinio canllawiau Cymorth i awdurdodau lleol, ac i wneud y defnydd gorau o'r cyfle y mae'r cyllid hwn o £1m y flwyddyn yn ei gynnig.

Ar ddiwedd mis Mai, byddaf eto'n cyflwyno adroddiad ar y cynnydd o ran bodloni argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau i Bobl Ifanc Anabl (Ionawr 2007). Roedd yr adroddiad hwn ac adolygiad y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau gynt o AAD (Rhan 3) yn canolbwyntio llawer ar bontio ôl 16. Roeddwn yn falch iawn i gyhoeddi ym mis Tachwedd fod cyllid o £500,000 yn parhau am dair blynedd i ddatblygu gweithwyr pontio allweddol i gefnogi pobl ifanc sy'n symud ymlaen i addysg bellach a chyflogaeth. Rydym yn cydweithio'n agos â Care Co-ordination UK i sicrhau dull cyson o weithio ar draws Cymru a fydd yn galluogi asiantaethau i fodloni'r safonau a bennwyd yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth.

Roeddwn hefyd, ar y cyd â'm cyd-Weinidog Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn falch yr wythnos diwethaf i lansio'r Cynllun Gweithredu Strategol Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig (ASD) ar gyfer Cymru. Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i sefydlu Cynllun Gweithredu strategol cenedlaethol trawsbleidiol ar gyfer anhwylderau yn y sbectrwm awtistig, a fydd yn helpu'r oddeutu 30,000 o bobl sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan Awtistiaeth yng Nghymru. Pennwyd y cyllid ar gyfer y 3 blynedd nesaf, gyda'r cyllid ar gyfer y flwyddyn gyntaf, sef £1.8m, yn cael ei gyhoeddi i hyrwyddo ei gamau allweddol.

Bydd y Cynllun Gweithredu Strategol yn gwneud gwelliannau ar draws y gwasanaethau i blant, pobl ifanc ac oedolion mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, a hefyd yn ehangu i feysydd tai, hamdden a
chymdeithas yn gyffredinol.

Mae Edwina Hart, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, wedi comisiynu adolygiad o'r holl ddarpariaeth cadeiriau olwyn yng Nghymru, sy'n cwmpasu benthyciadau hirdymor a thymor byr, a gwasanaethau cadair olwyn pediatrig. Bydd yr Adolygiad yn argymell Safonau Gwasanaeth a Manylebau ar gyfer darparu gwasanaethau cadair olwyn, ac yn nodi'r adnoddau sy'n ofynnol i gynnig y gwasanaeth mewn blynyddoedd i ddod. Gwneir y gwaith hwn yng nghyd-destun ehangach strategaeth ar gyfer byw'n annibynnol.

Mae dogfen 'Cymru'n Un' yn ymrwymo Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod cyngor cynhwysfawr ynglŷn â budd-daliadau ar gael ym mhob ardal awdurdod lleol. Er mai cyfrifoldeb yr Adran Gwaith a Phensiynau yw'r system budd-daliadau lles, rydym yn cydweithio'n agos â nhw ar faterion o'r fath a gadwyd yn ôl. Mae manteisio'n llawn ar incwm yn un o bum thema allweddol y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol arfaethedig ar gyfer Cymru, sy'n cael ei datblygu eleni. Fel rhan o'r Strategaeth hon, byddwn yn edrych ar ddulliau ychwanegol o helpu pobl, gan gynnwys teuluoedd isel eu hincwm â phlant, i fanteisio'n llawn ar y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt. Yn ddiweddar cwblhaodd y Dirprwy Weinidog dros Adfywio ymgynghoriad Cymunedau Nesaf sy'n annog Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf i ddatblygu'n lleol bum thema allweddol y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiadau y dylai Partneriaethau weithio'n agosach â'r Ganolfan Byd Gwaith a

phartneriaid eraill ar hyrwyddo incwm – gan gynnwys ysgogi mwy o bobl i fanteisio ar y budd-daliadau sy'n ddyledus iddynt. Bydd fy nghyd-Weinidog, sef y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, a'i swyddogion, hefyd yn manteisio ar y cyfle, trwy grwpiau ar lefel y DU fel Fforwm y Pedair Gwlad ar Dlodi Plant, i sicrhau bod yr Adran Gwaith a Phensiynau yn deall pwysigrwydd y ffaith bod plant anabl a'u teuluoedd yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt i gymryd budd-daliadau.

Rhoddir cyfle i aelodau Ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri Cymru gyflwyno eu barn i'r Grŵp Arbenigol ar Dlodi Plant, sydd newydd ei sefydlu, ynglŷn â'r materion y mae plant anabl a'u teuluoedd yn eu hwynebu o ran cael budd-daliadau.

Mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol hefyd wedi dechrau ymgynghori ar gynnig 50% o ryddhad ardrethi i ddarparwyr gofal plant gydag eiddo o hyd at £12,000 y flwyddyn o werth ardrethol.

Am y tro cyntaf eleni bydd Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn cynhyrchu Cynllun Cydraddoldeb Unigol, a fydd yn cwmpasu'r cynlluniau presennol ar gyfer anabledd, rhyw a hil ac yn adeiladu ar y rhain drwy hefyd roi sylw i oedran, crefydd a chred a chyfeiriadedd rhywiol. Rydym wrthi'n ymgynghori nawr ar y fframwaith a'r blaenoriaethau ac rwy'n awyddus iawn i gael safbwyntiau er mwyn sicrhau ein bod yn llunio ein cynllun a'n cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â'r anawsterau hyn a sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl ifanc anabl.

Rhan allweddol o'n hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol yw ein gwaith ni i gynnwys cydraddoldeb fel rhan annatod o'n busnes o ddydd i ddydd. Rydym wedi treialu proses lle mae ein polisïau yn agored i asesiad o effaith cydraddoldeb. Mae hyn yn ein galluogi i ganolbwyntio ar faterion sy'n bwysig i bobl anabl a phlant a phobl ifanc wrth inni ddatblygu ein polisïau. Rydym ar fin cyflwyno hyn ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan ystyried y gwaith a wnaed gennym, gyda chymorth partneriaid yn y sector gwirfoddol a statudol, megis y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r CGGC.

Rwy'n falch ein bod bellach yn mynd ati'n rhagweithiol i symud yr agenda hon yn ei blaen ar draws portffolios gweinidogol a bod cynnydd cyson yn cael ei wneud. Rwyf wedi gofyn i'r Grŵp Gorchwyl ystyried ymgyrch gyfathrebu sy'n tynnu ynghyd yr amrywiol weithgareddau a amlinellais ynghylch gwasanaethau i blant a phobl ifanc anabl. Bydd hyn yn hybu ymwybyddiaeth ac yn darparu dull cydgysylltiedig o gyflwyno gwasanaethau ar arferion gorau ar draws Cymru gyfan.